CROCHAN CELF

(Cwmni wedi ei gyfyngu trwy warant)

Adroddiad a Datganiadau Ariannol Anarchwiledig

Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

Rhif Elusen: 1105121

Rhif y Cwmni: 05048970

CHARITY COMMISSION

21 DEC 202

ACCOUNTS
RECEIVED

Adroddiad y Cyfarwyddwyr i Aelodau Crochan Celf

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Enw'r elusen:	Crochan Celf	
Cyfeiriad	Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SQ	
Rhifau Cofrestredig;	Rhif y Cwmni	05048970
	Rhif yr Elusen	1105121

Y Cyfarwyddwyr etholedig:

Ms Angharad Elen Blythe – ymddeol 1af Mai 2021
Mr Emyr Prys Davies – penodwyd 1af Mai 2021
Mr Walis Wyn George
Ms Elinor Gray-Williams – penodwyd 1af Mai 2021
Mr Iestyn Theophilus Harris
Ms Delyth Eluned Hughes
Mr Meirion Macintyre Huws
Mr Dewi Rhys Humphreys Jones
Mr Gerallt Llewelyn Jones
Ms Yasmin Khan
Mr Wyn Roberts
Mrs Ellen Thirsk
Mrs Nayema Khan Williams – penodwyd 25ain Ebrill 2021

Cyfansoddiad

Y mae'r Elusen yn Gwmni Cyfyngedig ac yn cael ei reoli gan ei Memorandwm ac Erthyglau dyddiedig 19 Chwefror 2004.

Amcanion

1. Hyrwyddo addysg y cyhoedd yn arbennig yn y celfyddydau gan gynnwys theatr, cerddoriaeth, sinema, celf, drama a chrefftau;

2. I wella safonau byw'r cyhoedd a rhai mewn angen, drwy reswm o ieuenctid, oedran, gwendid neu anabledd neu oherwydd amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd, mewn lles cymdeithasol, drwy ddarparu neu helpu darparu cyfleusterau at adloniant a diddordebau hamdden eraill.

Wrth lunio ein amcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Sut mae'r gweithgareddau yn cyflenwi budd cyhoeddus

Mae'r cyhoedd, yn fabis, plant, phobl ifanc a'r henoed (yn bennaf) wedi elwa o ddarpariaeth gelfyddydol ym meysydd cerddoriaeth, celf weledol, creu celf a thecstilau, dawns, ffotograffiaeth, adrodd stori ac wrth gwrs ffilm.

Mae'r cyllid wedi cyfrannu at weithgareddau penodol wedi eu teilwrio at anghenion pobl ifanc, lle mae nifer ohonynt gydag anawsterau. Mae hefyd yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf.

Polisi Ariannol a Pholisi cronfeydd wrth gefn

Gan nad oes llawer o gostau rhedeg i'r elusen, nid oes llawer o risg ariannol iddo. Nid yw'r elusen yn cyflogi staff nag yn gorfod talu am redeg swyddfa.

Yn amlwg ni fyddai'r elusen mewn sefyllfa i gefnogi digwyddiadau yn ariannol os na fyddai arian wedi cael ei dderbyn i mewn yn gyntaf ar eu cyfer.

Rheolaeth Risg

Mae'r cyfarwyddwyr wedi gwneud adolygiad o'r risg potensial y mae'r elusen yn ei wynebu. Byddai'r elusen yn gwneud asesiad risg ar gyfer bob digwyddiad y byddai'n ei drefnu ac yn gofyn i'r mudiadau eraill y mae yn ei ariannu gwneud yr un fath.

Aelodaeth Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd, yn rhinwedd eu sefyllfa wirfoddol, wedi bod yn gyfrifol am ymgymryd â holl benderfyniadau strategol sy'n berthnasol i reolaeth gyffredinol Crochan Celf ers y dechreuad, ac mae nhw wedi eu hethol gan, ac yn atebol i aelodau'r cwmni. Mae aelodaeth i'r cwmni yn agored i unrhyw un sydd ddim â diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r cwmni.

Er mwyn osgoi gwrthdaro diddordeb, ni chaniateir i denantiaid Crochan Celf (neu'r rhai a chyswllt uniongyrchol a thenantiaid) fod yn aelodau o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu fwrdd sydd gan ddiddordeb cyfreithiol neu ariannol yn y cwmni, neu sydd yn gyfrifol am ei reoli.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr fydd a'r hawl i benderfynu'n derfynol ar unrhyw geisiadau am aelodaeth i'r Bwrdd neu'r cwmni.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae gan y Cyfarwyddwyr gyfrifoldeb penodedig i baratoi adroddiadau i'r aelodau a thros asedau'r cwmni. Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr gyflwyno, ar gyfer pob cyfnod, ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn Neddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bychain, ynglŷn ag amgylchiadau'r cwmni ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddol, a'r gweddill neu ddiffyg am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid defnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas a luniwyd gan gyfeirio at ddyfarniadau ac amcanion rhesymol a phwyllog. Defnyddiwyd safonau cyfrifyddol cymwys a pharatowyd y cyfrifon ar sail busnes byw. Y Cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol digonol, i ddiogelu asedau'r cwmni ac i sicrhau y gwneir darpariaeth i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau - Datganiad o Ymarferiad Cymeradwyol Ariannol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Ymadrodd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Trwy orchymyn Bwrdd y Cyfarwyddwyr:

Mr Iestyn Harris
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 25ain Tachwedd 2021

Adroddiad y Cyfrifwyr Siartredig at Fwrdd Cyfarwyddwyr ar Ddatganiadau Anarchwiliedig Crochan Celf

Yn unol â'n llythyr penodiad, er mwyn eich cynorthwyo i gydymffurfio â'ch dyletswyddau dan Ddeddf Cwmnïau 2006, rydym wedi llunio datganiadau ariannol y cwmni elusennol ar dudalennau 4 i 7 o lyfrau cyfrifo'r cwmni elusennol ac ar sail yr wybodaeth a'r eglurhad a roddwyd i ni.

Gwneir yr adroddiad hwn i Fwrdd Cyfarwyddwyr yr Elusen/Ymddiriedolwyr, fel corff, yn unol â thelerau ein penodiad. Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith fel y gallem baratoi'r datganiadau ariannol y cawsom ein penodi i'w paratoi, adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr yr Elusen/ Ymddiriedolwyr ein bod wedi gwneud hynny, a datgan y materion hynny y cytunwyd i ddatgan amdanynt yn yr adroddiad hwn ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf llawnaf a ganiateir dan gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd arnom unrhyw gyfrifoldeb i neb heblaw'r Elusen a Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Elusen/ Ymddiriedolwyr, fel corff, am ein gwaith nac am yr adroddiad hwn.

Rydym wedi cwblhau'r penodiad hwn yn unol â'r arweiniad technegol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad o Gyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru ac wedi cydymffurfio â'r arweiniadau ethegol a roddwyd gan y Sefydliad yn berthnasol i aelodau sydd yn ymgymryd â llunio datganiadau ariannol.

Rydych wedi cydnabod ar y fantolen am y flwyddyn hyd 31ain Mawrth 2021 eich dyletswydd i sicrhau fod yr Elusen yn cadw cofnodion cyfrifon cywir ac i baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg gwir a theg dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Rydych yn ystyried fod yr Elusen yn rhydd o'r gofynion statudol i gynnal archwiliad am y flwyddyn.

Nid ydym wedi cael cyfarwyddyd i gynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol. Yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn o unrhyw fath ar y datganiadau ariannol. Oherwydd hyn, nid ydym wedi sicrhau cywirdeb y cofnodion cyfrifo nac os ydynt yn gyflawn, nac ychwaith yr wybodaeth a'r eglurhad a roddwyd i ni gennych. Felly nid ydym yn mynegi unrhyw farn ar y datganiadau ariannol.

W. J. Matthews a'i Fab
Cyfrifwyr Siartredig
11-15 Bont y Bridd
Caernarfon
LL55 1AB

Dyddiedig: 25ain Tachwedd 2021

CROCHAN CELF

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2021*

	Cronfa Angyfyngedig 2021 £	Cronfa Cyfyngedig 2021 £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Incwm				
Incwm gwirfoddol				
Rhoddion	2,818	-	2,818	11,490
Cyfanswm incwm	£2,818	£-	£2,818	£11,490
Gwariant				
Gwariant ar weithgareddau elusennol	993	-	993	6,134
Cyfanswm gwariant	£993	£-	£993	£6,134
(Gwariant)/ Incwm net a symudiad mewn cronfeydd am y flwyddyn	1,825	-	1,825	5,356
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2020	17,862	13,845	31,707	26,351
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2021	£19,687	£13,845	£33,532	£31,707

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r elw net am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £1,825 (2020 – £5,365).

CROCHAN CELF

Mantolen *ar 31 Mawrth 2021*
(Rhif Cwmni 05048970)

	2021 £	2021 £	2020 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau sefydlog dirweddol		-	980
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	2,818		2,955
Arian yn y banc	30,714		28,022
	33,532		30,977
Credydwyr: Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn	-		(250)
Dyledwyr llai credydwyr cyfredol		33,532	30,727
Asedau net		£33,532	£31,707
CRONFEYDD INCWM			
Cronfa gyfyngedig		13,845	13,845
Cronfeydd anghyfyngedig		19,687	17,862
		£33,532	£31,707

Ym marn y cyfarwyddwyr mae'r cwmni yn deilwng dan adran 477(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 rhag archwiliad o'r cyfrifon am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2021. Nid oes aelod o'r cwmni wedi rhoi rhybudd dan adran 476 yn gofyn am archwiliad o'r cyfrifon hyn.
Y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am sicrhau fod y cwmni yn cadw cofnodion cyfrifon sydd yn cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac yn darparu datganiadau cyllidol sydd yn adlewyrchu'n deg ac yn gywir sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ynghyd a'i elw neu golled ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395, ac sydd fel arall yn cydymffurfio a gofynion Deddf Cwmnïau 2006 parthed datganiadau cyllidol, sy'n berthnasol i'r cwmni.

Mae'r datganiadau cyllidol wedi eu darparu yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bach.

Ar ran y Pwyllgor:

Mr Iestyn Harris
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 25ain Tachwedd 2021

Mae'r nodiadau ar dudalen 6 i 8 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

CROCHAN CELF

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2021*

1. Polisïau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Confensiwn cyfrifeg

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Crochan Celf yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

c) Adnoddau cyllid

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithlon i'r incwm, bod canllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen, bod digon o sicrwydd y gellir ystyried bydd derbyn yr incwm yn debygol a gellir mesur gwerth yr incwm gyda chywirdeb rhesymol. Cyfrifir am grantiau yn y cyfnod y maent yn perthyn. Gohirir incwm ble nad yw'r amodau ynglŷn dderbyn yr arian wedi eu cwblhau neu fod yr incwm wedi ei neilltuo tuag at gyfnod hwyrach.

ch) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabyddir gwariant pan mae dyletswydd i wneud taliad i drydydd person, y bydd yn debygol fod taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr oblygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir yr holl wariant ar sail croniant ac maent wedi eu dosbarthu dan benawdau sydd yn cyfuno'r holl gostau sydd yn berthnasol i'r pennawd. Lle nad yw'n bosibl priodoli costau yn uniongyrchol i benawdau maent wedi eu dyrannu ar sail sydd yn gyson a'r defnydd o'r adnoddau.

Cost gweithgareddau elusennol yw'r costau sy'n ymwneud â gwariant ar amcanion yr elusen boed yn gost uniongyrchol neu yn gost cynorthwyol.

d) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost. Dangosir yr asedau sefydlog ar sail cost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost yr asedau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

Cyfrifiaduron	20%

Nid yw asedau sefydlog sydd yn costio llai na £200 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynu.

2. Statws y cwmni

Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warrant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni. Gan na dderbynnir unrhyw eiddo o'r cwmni gan yr aelodau, nid oes Cysoneb o Gronfeydd Ariannol yn angenrheidiol.

3.	**Asedau sefydlog**	**Offer Cyfrifiadurol**	**Cyfanswm**
		£	**£**
	Cost		
	Ar 1 Ebrill 2020 ac ar 31 Mawrth 2021	4,902	4,902
	Dibrisiant		
	Ar 1 Ebrill 2020	3,922	3,922
	Codiad am y flwyddyn	980	980
	Ar 31 Mawrth 2021	4,902	4,902
	Gwerth Llyfr Net		
	Ar 31 Mawrth 2021	£-	£-
	Ar 31 Mawrth 2020	£980	£980

4.	**Adnoddau a ddefnyddiwyd**	**2021**	**2020**
		£	**£**
	Gweithgareddau elusennol	-	4,650
	Dibrisiant	980	980
	Costau swyddfa	13	13
	Gwefan	-	251
	Costau cyfrifadurol	-	240
		£993	£6,134

5. Cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr a chost

Mae'r cwmni yn cael ei reoli gan aelodau'r bwrdd a enwir ar dudalen 1. Personél rheoli allweddol yr elusen yw'r ymddiriedolwyr. Ni fu unrhyw drafodion perthnasol rhwng y cwmni a'r aelodau. Ni chafodd unrhyw dal na chostau eu talu i'r Ymddiriedolwyr allan o adnoddau'r cwmni.

Ni chyflogwyd unrhyw staff yn ystod y cyfnod.

6. Symudiadau mewn cronfeydd

	Balans 31 Mawrth 2020 £	Incwm £	Gwariant £	Balans 31 Mawrth 2021 £
Cronfeydd cyfyngedig - Rhoddion	13,845	-	-	13,845
Cronfeydd anghyfyngedig	17,862	2,818	(993)	19,687
	£31,707	£2,818	(£993)	£33,532

	Balans 31 Mawrth 2019 £	Incwm £	Gwariant £	Balans 31 Mawrth 2020 £
Cronfeydd cyfyngedig - Rhoddion	11,107	7,388	4,650	13,845
Cronfeydd anghyfyngedig	15,244	4,102	1,484	17,892
	£26,351	£11,490	£6,134	£31,707

7. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2021

	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfa Anghyfyngedig £	Cyfanswm £
Asedau Cyfredol	13,845	19,687	33,532
Cyfanswm asedau net	£13,845	£19,687	£33,532